# Ymateb Llywodraeth Cymru i'r Arolygiad Annibynnol o'r Sector Llaeth yng Nghymru

| | Argymell | Ymateb | Cam gweithredu | Sefydliad Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Arweinyddiaeth** | | | | |
| 1 | Sefydlu Bwrdd Arwain Llaeth Cymru egnïol sy'n integreiddio Tasglu Llaeth Cymru Dylai'r bwrdd gael ei gadeirio gan y diwydiant ac adeiladu ar y Tasglu Llaeth Cymru presennol er mwyn cael cyfuniad cytbwys o brofiad, ieuenctid a gwybodaeth. Mae'n gyfrifol am:<br>• Blaenoriaethu ffrydiau gwaith, egluro canlyniadau, a dyrannu cyfrifoldebau am gyflawni argymhellion yr Arolygiad o Laeth Cymru<br>• Gyrru strategaeth y diwydiant yn y dyfodol<br>• Cydlynu a throsoli gweithgareddau gyda Bwrdd Bwyd a Diod Cymru<br>• Cydweithio ledled y DU i sicrhau nad yw ymdrechion yn cael eu dyblygu<br>• Dal, caffael a chyflenwi dulliau arloesol trwy Felin Drafod Dulliau Arloesol Llaeth Cymru (gweler isod)<br>• Nodi bylchau mewn gwybodaeth a sgiliau a chydlynu atebion trwy Grŵp Gwybodaeth a Sgiliau Llaeth Cymru (gweler isod)<br>• Derbyn cyfrifoldeb am Brosiect Ymgysylltu â'r Genhedlaeth Nesaf a'i yrru ymlaen (gweler isod) | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi sefydlu Bwrdd Arwain, a bydd hi’n gweithio gyda Thasglu Llaeth Cymru wrth sefydlu'r grŵp newydd hwn. Fel gyda Thasglu Llaeth Cymru, bydd Llywodraeth Cymru yn tynnu ar arbenigedd y Bwrdd Arwain er mwyn llywio polisi'r diwydiant llaeth ymhellach.<br><br>*Sefydlwyd Tasglu Llaeth Cymru ddwy flynedd yn ôl fel grŵp cynghori gweinidogion. Ar y pryd, fe'i cytunwyd y byddai'r cylch gorchwyl, ynghyd a'i aelodaeth, yn cael ei adolygu ar ôl dwy flynedd. Mae Llywodraeth Cymru yn credu ei bod bellach yn briodol i'r diwydiant gyrru swyddogaeth yr arweinyddiaeth ac adeiladu ar gryfder sefydlog Tasglu Llaeth Cymru.* | **Y diwydiant llaeth (gan weithio gyda'r llywodraeth)** | Mai 2015 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 2 | Penodi Pencampwr Llaeth Cymru wedi'i noddi gan Lywodraeth Cymru i:<br>• Fod yn rhan o Fwrdd Arwain Llaeth Cymru a hwyluso gweithredu effeithiol ac effeithlon y grŵp hwn<br>• Paratoi canolbwynt yn y diwydiant o ddydd i ddydd er mwyn cydlynu gweithgareddau ac i nodi anghenion y diwydiant<br>• Gweithredu fel canolbwynt cyfathrebu ar gyfer diwydiant llaeth Cymru | Derbyn (mewn egwyddor) | Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn noddi'r swydd Pennaeth Datblygu Llaeth (Cymru) o fewn DairyCo. Mae swydd-ddisgrifiad y swydd hon yn debyg i'r cynnig yn yr argymhelliad hwn. Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r swydd hon i sicrhau bod y rôl yn bodloni disgwyliadau'r argymhelliad hwn. | **Llywodraeth Cymru (gyda DairyCo)** | Mehefin 2015 |
| 3 | Sefydlu Gwobrau Ffermio Llaeth Cymru blynyddol yn 2015 fel rhan o Gynhadledd Ffermio Cymru i ddathlu rhagoriaeth yn y diwydiant llaeth yng Nghymru ac i gydnabod yr arferion gorau yn y pum maes strategol canlynol:<br>• Arweinyddiaeth<br>• Canolbwynt y Farchnad<br>• Effeithiolrwydd<br>• Gwybodaeth a Sgiliau<br>• Yr Amgylchedd<br>Bydd Bwrdd Arwain Llaeth Cymru yn dewis enillwyr categori. | Derbyn (mewn egwyddor) | Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen i ddathlu llwyddiant yn y diwydiant llaeth, a bydd hi'n gweithio gyda Bwrdd Arwain Llaeth Cymru er mwyn ymchwilio i gyflwyno seremoni wobrwyo yn 2016.<br><br>Gan y byddai'r gwobrau yn benodol ar gyfer y diwydiant llaeth, byddai'n well gennym pe bai'r gwobrau'n cael eu cyflwyno yn ystod Sioe Llaeth Cymru, a gynhelir yng Nghaerfyrddin. | **Diwydiant** | Hydref 2015 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 4 | Nodi talent botensial ar gyfer arweinyddiaeth diwydiant Llaeth Cymru ar draws y gadwyn gyflenwi, a chyflwyno cynllun mentora a hyfforddi i sicrhau bod yr arweinwyr hyn yn cyflawni eu potensial er lles y diwydiant.<br><br>Argymhellir y dylai'r diwydiant gweithio gyda rhaglenni arfaethedig y Cynllun Datblygu Gwledig ar gyfer 2014-20 ac ystyried cynigion ar gyfer y prosiect yn y Cynllun Datblygu Gwledig nesaf er mwyn ariannu'r gweithgareddau hyn. | Derbyn | Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Bwrdd Arwain Llaeth Cymru a'r gadwyn gyflenwi ehangach er mwyn mynd â'r fenter hon rhagddi. Ar hyn o bryd, mae trafodaethau'n mynd rhagddynt i archwilio'r posibiliad o sefydlu prosiectau diwydiannau craidd a fydd yn cael eu hariannu gan y Cynllun Datblygu Gwledig newydd. Mae'n bosibl mai dyna'r modd y gweithredir yr argymhelliad hwn. | **Llywodraeth Cymru** | Hydref 2015 |
| 5 | Integreiddio grwpiau llywio llaeth Cymru sy'n bodoli eisoes, a Thasglu Llaeth Cymru, i Fwrdd Arwain Llaeth Cymru lle y cytunir y bydd hyn yn symleiddio a gwella effeithiolrwydd. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod nifer o grwpiau sy'n diwallu ac yn cynrychioli amryw rannau o'r gadwyn gyflenwi llaeth – ond nid ydynt o reidrwydd â'r un nod. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Bwrdd Arwain Llaeth Cymru er mwyn sicrhau bod gwaith pob grŵp yn cael ei gydlynu ac yn canolbwyntio ar anghenion y diwydiant. | **Llywodraeth Cymru a'r Diwydiant** | Gorffennaf 2015 |

| | Canolbwynt y Farchnad | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 6 | Cwblhau astudiaeth ymarferoldeb ynglŷn â'r posibilrwydd o safle prosesu llaeth a yrrir gan y farchnad yn ne-orllewin Cymru, er mwyn sicrhau marchnad ddiogel sy'n ychwanegu gwerth ar gyfer y 400 miliwn litr y flwyddyn o laeth Cymru a fydd yn cael eu cynhyrchu erbyn 2020. | Derbyn | Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Bwrdd Arwain Llaeth Cymru i'w alluogi i gomisiynu astudiaeth a fydd yn ymchwilio i gyfleoedd i ddatblygu prosesu llaeth yn ne-orllewin Cymru. | **Llywodraeth Cymru** | Dyddiad 2015 Rhagfyr 2014 |
| 7 | Sefydlu Melin Drafod Dulliau Arloesol Llaeth Cymru a fydd yn ymatebol i Fwrdd Arwain Llaeth Cymru ac yn cael ei rhedeg gan y diwydiant at y diben o:<br>• Nodi syniadau arloesol sy'n bodoli eisoes ar draws y gadwyn gyflenwi, a'u trosglwyddo i ddefnyddwyr newydd<br>• Dal syniadau arloesol "awyr glas" ar draws y gadwyn gyflenwi a'u trosoli trwy atebion â ffocws pendant<br>• Sicrhau bod syniadau arloesol yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd ac ar y farchnad | Derbyn (mewn egwyddor) | Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd syniadau arloesol ar gyfer ffermio a phrosesu'n hanfodol os yw sector llaeth Cymru am gyflawni cynnydd cynaliadwy. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Bwrdd Arwain Llaeth Cymru er mwyn penderfynu ar y mecanwaith mwyaf priodol i gyflawni'r argymhelliad hwn. | **Diwydiant** | Medi 2015 |
| 8 | Sicrhau bod y rownd nesaf o Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd, gan gynnwys y Cynllun Datblygu Gwledig yn y dyfodol, yn cael ei defnyddio i annog ac i hyrwyddo dulliau gwell o gynhyrchu llaeth cychwynnol, prosesu llaeth, marchnata cynnyrch, ac arloesi yng Nghymru. | Derbyn | Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Bwrdd Arwain Llaeth Cymru yn ogystal â'r gadwyn gyflenwi ehangach er mwyn sicrhau y manteisir i'r eithaf ar arian o'r UE a Llywodraeth Cymru. | **Llywodraeth Cymru** | Yn parhau |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 9 | Cydweithio â Bwrdd Bwyd a Diod Cymru newydd i:<br>• Ddylanwadu ar gylch gorchwyl y bwrdd er mwyn sicrhau bod buddiannau llaeth Cymru yn cael eu cynrychioli'n llawn<br>• Deall gwerth y brand Cymreig i brynwyr bwyd yn y marchnadoedd lleol a rhyngwladol, fel brand sy'n annibynnol ond hefyd yn gysylltiedig â'r brand Prydeinig<br>• Deall manteision tynhau rheolau labelu gwlad tarddiad<br>• Gwella'r wefan gaffael a hyrwyddo yng Nghymru er mwyn sicrhau bod prynwyr a gwerthwyr o bob math yn cael eu cynrychioli | Derbyn | Bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r Bwrdd Arwain i weithio'n agos gyda Bwrdd Bwyd a Diod Cymru, er mwyn sicrhau bod y sector llaeth yn cael ei gynrychioli'n llawn. Bydd Bwrdd Bwyd a Diod Cymru yn rhoi cyngor ar faterion ynglŷn â defnyddio brandiau Cymreig, a bydd yn gweithio gyda'r Asiantaeth Safonau Bwyd ar faterion sy'n ymwneud â labelu gwlad tarddiad.<br><br>Bydd Bwrdd Bwyd a Diod Cymru hefyd yn mynd i'r afael â chaffael cyhoeddus er lles pob sector bwyd a diod yng Nghymru (gweler argymhellion 30 a 42 yn y Cynllun Gweithredu Bwyd a Diod). | **Diwydiant** | Yn parhau |
| 10 | Sefydlu prosiect ymgysylltu â'r genhedlaeth nesaf – a fydd yn ymatebol i Fwrdd Arwain Llaeth Cymru – er mwyn ennyn diddordeb plant ysgol mewn ffermio gwartheg godro a chynnyrch llaeth er mwyn cyflawni'r canlyniadau canlynol:<br>• Bydd plant yn deall gwerth cynnyrch llaeth a ffermio gwartheg godro<br>• Bydd rhieni'n deall a gwerthfawrogi'r diwydiant llaeth trwy weithgareddau ac ymddygiad eu plant | Derbyn (yn rhannol) | Cynigir y bydd y Cynllun Datblygu Gwledig newydd yn cyflwyno rhaglen a fydd yn cynnwys ymgysylltu ag ysgolion. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Bwrdd Arwain er mwyn integreiddio ymwybyddiaeth o gynhyrchu llaeth a chynnyrch llaeth i'r prosiect hwn.<br><br>Ar hyn o bryd, mae mecanweithiau o fewn y cwricwlwm ysgol cyfredol ar gyfer galluogi addysg ar ffermio a | **Llywodraeth Cymru a'r Diwydiant** | Ionawr 2016 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | bwyd, trwy Addysg Bersonol, Gymdeithasol ac Iechyd (ABGI) ar fwyd, lles a thechnoleg bwyd. | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 11 | Gweithio gyda gwasanaeth caffael cyhoeddus y llywodraeth er mwyn sicrhau bod cynnyrch llaeth Cymru yn cael ei gynnwys mewn tendrau i gyflenwi ysgolion ac ysbytai Cymru, ynghyd â'r sector cyhoeddus ehangach. | Derbyn | Mae'r Cynllun Gweithredu Bwyd a Diod, Tuag at Dwf Cynaliadwy (Cam Gweithredu 30), yn canolbwyntio ar brynu gan y sector cyhoeddus ac yn dweud y bydd Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru er mwyn galluogi cyfleoedd i gwmnïau bwyd Cymru gyflenwi'r sector cyhoeddus.<br>Mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn datblygu strategaeth bwyd ar gyfer 2015.<br><br>Mae buddsoddi mewn strwythur dosbarthu ar draws Cymru yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol. Bydd hyn yn ei wneud yn haws i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru cael mynediad at gontractau cyhoeddus, yn ogystal â sicrhau y rhoddir fframweithiau bwyd ar wefan GwerthwchiGymru er mwyn caniatáu i'r busnesau hyn dendro amdanynt.<br><br>Mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn ymgorffori | **Llywodraeth Cymru** | Ionawr 2016 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | egwyddorion Polisi Caffael Cymru ym mhob contract a fframwaith mae'n ei dendro neu’n ei reoli. Yn unol â hyn, mae pob contract a fframwaith yn agored, yn deg ac yn dryloyw ar gyfer pob parti. | | |

| | Effeithiolrwydd | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 12 | Dylai Bwrdd Arwain Llaeth Cymru, gan weithio gyda Llywodraeth Cymru, ddeall a mesur sut y gallai cydweithio logistaidd gwell leihau'r gost ar gyfer cadwyn gyflenwi llaeth Cymru. | Derbyn (mewn egwyddor) | Gallai cydweithio logistaidd fod yn rhan o brosiect diwydiannau craidd a gynigiwyd am gefnogaeth o dan y Cynllun Datblygu Gwledig. Gellid bodloni'r argymhelliad hwn mewn cysylltiad ag Argymhelliad 4. | **Llywodraeth Cymru** | Hydref 2015 |
| 13 | Sicrhau bod gweithgareddau trosglwyddo gwybodaeth, fel y rhai a gyflwynir gan y rhaglen newydd Cyswllt Ffermio a DairyCo, yn gysylltiedig ac yn canolbwyntio ar flaenoriaethau'r cynllun pum pwynt, gan ganolbwyntio yn enwedig ar gynnydd mewn effeithiolrwydd yn y meysydd canlynol:<br><br>• Gwell defnydd o borfeydd<br>• Silwair o well ansawdd<br>• Gwell defnydd o slyri a maethynnau pridd (gan gynnwys defnyddio biodreulwyr anaerobig) | Derbyn | Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru wrthi'n cynnal ymarfer caffael er mwyn darparu gwasanaethau cynghori a throsglwyddo gwybodaeth o dan y Cynllun Datblygu Gwledig newydd. Mae cynhyrchiant, effeithiolrwydd technegol, ac iechyd a lles anifeiliaid yn feysydd arfaethedig o gefnogaeth y bwriedir eu cyflwyno trwy gydol y gwasanaeth.<br><br>Rhan o rôl y Pencampwr Llaeth, ynghyd â'r Bwrdd Arwain, fydd sicrhau bod cefnogaeth ar gyfer y gadwyn gyflenwi llaeth, gan bob ffynhonnell arian sydd ar gael, yn cael ei chydlynu a'i defnyddio er lles mwyaf y sector. | **Llywodraeth Cymru a DairyCo** | Medi 2015 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 14 | Dylai Llywodraeth Cymru geisio dylanwadu ar Drysorlys ei Mawrhydi i ystyried ar frys a yw'r system drethu bresennol yn rhwystro buddsoddiad pellach yn y sector llaeth – ac wedyn i weithredu yn ôl yr angen. | Derbyn | Bydd Llywodraeth Cymru yn codi'r mater o drethu busnesau amaethyddol gyda Lywodraeth DU. Bydd y cam gweithredu hwn hefyd yn mynd i'r afael ag argymhelliad tebyg yn adolygiad annibynnol Malcolm Thomas o'r Genhedlaeth Ffermio Nesaf, er mwyn helpu pobl sy'n newydd i'r diwydiant a'r rhai sydd am ei adael. | **Llywodraeth Cymru** | Awst 2015 |
| 15 | Gwerthuso'r posibilrwydd o ddiwydiant llaeth Cymru yn rhannu cynlluniau ffermio, yn unol ag argymhellion gan Malcolm Thomas er mwyn:<br>• Sicrhau bod tir, peiriannau ac adeiladau'n cael eu defnyddio mewn ffordd effeithiol<br>• Denu pobl newydd i ffermio llaeth<br>• Cadw a chynnal gwybodaeth a sgiliau | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried mentrau cydweithredol yn ffordd bwysig i alluogi atebion arloesol i gefnogi newydd-ddyfodiaid<br>i'r diwydiant.<br><br>Trwy'r mesur cydweithredu yng Nghynllun Datblygu Gwledig 2014–20, bydd Llywodraeth Cymru yn archwilio'r posibilrwydd o fentrau cydweithredol fel modd o gefnogi symudedd yn y sector llaeth ac yn y diwydiant ehangach.<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda grŵp rhanddeiliaid YESS (Cynllun Cymorth i Newydd-ddyfodiaid) er mwyn asesu'r posibilrwydd o ddatblygu Llwyfan | **Llywodraeth Cymru** | Rhagfyr 2015 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Cyfleoedd ar y Cyd.<br><br>*Ystyrir sefydlu Llwyfan Cyfleoedd ar y Cyd yn offer hanfodol ar gyfer creu symudedd a chyfleoedd. Bydd y llwyfan yn helpu i ddenu pobl i fyd amaethyddiaeth trwy gynnig dulliau arloesol a hyrwyddo ffermio cyfran a ffermio ar gontract. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei rôl ynglŷn â'r Llwyfan Cyfleoedd ar y Cyd yn un sy'n arwain yr agwedd hwyluso ar ran y diwydiant.* | | |
| 16 | Sicrhau bod taliadau gan y Cynllun Datblygu Gwledig yn canolbwyntio ar wella cynhyrchiant ffermio llaeth ac iechyd a lles anifeiliaid. | Derbyn | Bydd effeithiolrwydd cynhyrchiol a thechnegol yn ganolbwynt allweddol i'r gefnogaeth a roddir i fusnesau amaethyddol gan Lywodraeth Cymru. Yn benodol, bydd Cyswllt Ffermio yn cynnig gwasanaethau cynghori a throsglwyddo gwybodaeth yn y meysydd a nodwyd.<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Bwrdd Arwain Llaeth Cymru i sicrhau bod cysylltiadau â gwaith Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru. Mae'r grŵp hwn eisoes wedi cytuno ar restr o flaenoriaethau clefyd, gan gynnwys dolur rhydd feirysol y gwartheg a'r clafr, ynghyd â themâu trawsbynciol | **Llywodraeth Cymru** | Yn parhau |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | ehangach fel bioddiogelwch, cynllunio iechyd, ac ymwrthedd i gyffuriau. | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 17 | Meincnodi cost ac effaith amgylcheddol yr ynni a ddefnyddir gan ffermwyr a phrosesyddion llaeth Cymru yn erbyn cystadleuaeth byd eang er mwyn deall cystadleurwydd rhyngwladol a'r effaith amgylcheddol gymharol. Nodi meysydd ar gyfer lleihau costau ac opsiynau hyfyw ar gyfer ffynonellau amgen o danwydd er mwyn lleihau'r effaith amgylcheddol. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried meincnodi yn offer defnyddiol ar gyfer ffermwyr llaeth er mwyn cynyddu effeithiolrwydd, ac mae'n cydnabod yr angen i fusnesau ar draws y gadwyn gyflenwi feincnodi. Meincnodi ariannol a ffisegol, gan gynnwys yr effaith amgylcheddol, sydd yn ei dro'n cynnwys defnydd ynni ac allyriadau carbon – yn ogystal â mesurau cymharol eraill.<br><br>Bydd rhaglen newydd Cyswllt Ffermio yn cefnogi defnydd o weithgareddau meincnodi trwy gynnig cyngor ar leihau defnydd ynni a chynhyrchu ynni. | **Diwydiant** | Hydref 2015 |
| 18 | Gwerthuso cynllun gadael y diwydiant ar gyfer ffermwyr llaeth, trwy gyngor proffesiynol a ariennir sydd â'r potensial i:<br>• Gadw gwybodaeth a pharchu ffordd o fyw ffermwyr sy'n ymddeol<br>• Sicrhau defnydd mwy effeithiol o dir, adeiladau a pheiriannau<br>• Cadw a rhannu gwybodaeth a sgiliau ffermwyr sy'n ymddeol<br>• Denu newydd-ddyfodiaid i ffermio llaeth | Derbyn | Byddwn yn gwerthuso hyn yn fwy agos gan fod gweithgareddau ategol naill ai ar y gweill neu wedi'u cynllunio. Mae hyn yn ychwanegu at ein hymateb i adroddiad Malcolm Thomas ar y Genhedlaeth Nesaf Ffermio, ac o dan Gynllun Datblygu Gwledig 2014–20, rydym yn cynnig darparu ystod eang o gefnogaeth ar gyfer y rhai sydd am ymuno â'r diwydiant a'r rhai sydd am ei adael. | **Llywodraeth Cymru** | Ionawr 2016 |

| | Gwybodaeth a Sgiliau | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 19 | Datblygu cynllun cyffredin a chynllun cyllido er mwyn gwella trosglwyddo gwybodaeth, sgiliau busnes, ac arweinyddiaeth ar gyfer ffermwyr llaeth a fydd yn:<br>• Cydlynu Colegau Cymru, DairyCO, Canolfannau Arloesol y Diwydiant Llaeth, a Chyswllt Ffermio, a gwneud y defnydd gorau ohonynt<br>• Sefydlu canolfan ragoriaeth ar gyfer y diwydiant llaeth a fydd yn cystadlu â Moorepark yn Iwerddon<br>• Cydweithio â cholegau amaethyddol Lloegr a'r Alban er mwyn rhannu adnoddau ac arbenigedd ac osgoi dyblygu<br>• Datblygu a throsoli teithiau astudio, ymweliadau fferm, meincnodi, cyfnewidiadau ffermwyr, a grwpiau trafod* | Derbyn (yn rhannol) | Gwnaeth adolygiad annibynnol yr Athro Wynne Jones o addysg nifer o argymhellion allweddol sy'n ychwanegu at agweddau ar yr argymhelliad hwn. Byddant yn cael sylw trwy gyflawni'r cynllun gweithredu hwnnw.<br><br>Mae'r argymhelliad y dylid sefydlu canolfan ragoriaeth ar gyfer y diwydiant llaeth wedi cael ei wrthod, gan fod nifer o ganolfannau wedi'u sefydlu yng Nghymru eisoes, e.e. Coleg Sir Gar ac IBERS ym Mhrifysgol Aberystwyth, yn ogystal â chanolfannau y tu allan i Gymru, e.e. Coleg Prifysgol Harper Adams, sydd eisoes â’r arbenigedd a'r cyfleusterau i gefnogi'r diwydiant llaeth. | **Diwydiant** | Yn parhau'n unol ag adroddiad yr Athro Wynne Jones |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 20 | Sicrhau bod ymgynghorwyr a gomisiynir yn y rhaglen newydd Cyswllt Ffermio yn darparu gwasanaeth cyson ac effeithiol, o bosib trwy siarter achrededig ar gyfer yr ymgynghorwyr perthnasol. | Derbyn | Rhoddir contractau newydd i ymgynghorwyr Cyswllt Ffermio gan Lywodraeth Cymru trwy broses recriwtio deg ac agored. Bydd elfen er mwyn rheoli ansawdd gwasanaethau cynghorol yn cael ei chynnwys yn y gwasanaethau a geisir ar gyfer Cyswllt Ffermio yn 2015, yn ogystal â chynlluniau datblygiad proffesiynol parhaus cyson ar gyfer yr ymgynghorwyr hynny. | **Llywodraeth Cymru** | Rhagfyr 2015 |
| 21 | Datblygu dealltwriaeth ffermwyr o sut mae marchnadoedd y DU a Chymru a marchnadoedd rhyngwladol yn gweithredu, a sut i amddiffyn eu busnesau rhag marchnadoedd anweddol yn y dyfodol. | Derbyn | Bydd yr argymhelliad hwn yn cael ei weithredu trwy'r cynllun arfaethedig Cyswllt Ffermio o dan y Cynllun Datblygu Gwledig nesaf, yn ogystal â chefnogaeth a fydd ar gael gan DairyCo fel rhan o'i gefnogaeth i dalwyr lefi. | **Llywodraeth Cymru a DairyCo** | Medi 2015 |
| 22 | Sefydlu Grŵp Gwybodaeth a Sgiliau Llaeth Cymru a fydd yn atebol i Fwrdd Arwain Llaeth Cymru, at y diben o ddatblygu strategaeth tymor hir i feithrin cysylltiadau â busnesau ac i wella ansawdd y sgiliau allweddol canlynol ac ysgogi rhagor o bobl i feithrin y sgiliau hynny:<br>• Llafurwyr fferm<br>• Rheolwyr fferm<br>• Datblygu cynhyrchion newydd ac arloesi<br>• Marchnata<br>• Gwyddoniaeth bwyd | Derbyn (yn rhannol) | Mae datblygu sgiliau'n agwedd bwysig a fydd yn cael ei gweithredu ar y cyd â Lantra. Ar hyn o bryd, nid yw Llywodraeth Cymru yn teimlo bod angen sefydlu grŵp newydd yn arbennig ar gyfer y sector llaeth. Bydd y cam gweithredu hwn yn cael ei weithredu trwy Raglen Strategaeth Amaethyddol Cymru, Cynllun Gweithredu Bwyd a Diod, ac adolygiad annibynnol yr Athro Wynne Jones. | **Llywodraeth Cymru** | Rhagfyr 2015 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | • Peirianneg<br>• Prosesu (gan gysylltu â phartneriaeth Sgiliau Diwydiant Llaeth Cymru) | | | | |
| | **Yr Amgylchedd** | | | | |
| 23 | Datblygu strategaeth a fydd yn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ar ffermydd llaeth Cymru. | Derbyn | Mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiadau ar waith er mwyn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o'r sector amaethyddol ers 2010 fel rhan o'n targedi trosfwaol. Mae lleihau allyriadau o ffermydd llaeth yn rhan allweddol o'r dull sydd ei angen, ac mae hefyd yn cynnig cyfleoedd i ffermydd a fydd yn eu helpu i gefnogi eu cynaliadwyedd yn y dyfodol.<br>Bydd y Rhaglen Datblygu Strategaeth Amaethyddol a chefnogaeth y Cynllun Datblygu Gwledig nesaf ar gyfer mesurau a fydd yn rhwystro effaith allyriadau nwyon tŷ gwydr yn mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn. | **Llywodraeth Cymru a Diwydiant** | Yn parhau |
| 24 | Datblygu cynlluniau penodol er mwyn lleihau effaith ffermio llaeth ar adnoddau naturiol (aer, pridd, dŵr a bioamrywiaeth). | Derbyn | Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r diwydiant llaeth er mwyn datblygu a chyflenwi'r map ffyrdd llaeth. Bydd hefyd yn parhau i gefnogi adnoddau naturiol trwy gyflwyno Cyswllt Ffermio a thrwy drawsgydymffurfio â Chod Arferion Amaethyddol Da. | **Llywodraeth Cymru a Diwydiant** | Mehefin 2016 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 25 | Gwella defnydd Glastir (rheolaeth tir cynaliadwy Cymru) trwy wneud y cynllun yn fwy apelgar at ffermwyr Cymru. | Derbyn | Mae Llywodraeth Cymru wedi adolygu'r cynllun Glastir ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig newydd, a bydd hi'n ceisio gwella cymryd rhan gan ffermwyr llaeth yn y meysydd a nodir ar gyfer ymyrraeth er mwyn cyflawni amcanion amgylcheddol allweddol.<br><br>Yn ychwanegol i Glastir, fydd rhannau eraill o'r Raglen Strategaeth Amaethyddol Cymru yn cynnig cymorth i'r diwydiant i wella eu perfformiad amgylcheddol. | **Llywodraeth Cymru** | Yn parhau |
| 26 | Datblygu cynlluniau er mwyn diwallu anghenion dŵr tymor hir y diwydiant prosesu llaeth. | Derbyn | Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phrosesyddion llaeth a Chyfoeth Naturiol Cymru er mwyn sicrhau bod dŵr yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd gynaliadwy a bod yr amgylchedd yn cael ei amddiffyn a'i wella yn unol â gofynion statudol y dyfodol ar gyfer Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (yn aros am Gydsyniad Brenhinol) ac ymrwymiadau Llywodraeth Cymru i reoli cyfoeth naturiol Cymru. Yn benodol, bydd yn rhaid ystyried anghenion dŵr y diwydiant prosesu llaeth wrth ddatblygu'r Datganiadau Ardal mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu rhoi ar waith trwy | **Llywodraeth Cymru a Diwydiant** | Mehefin 2016 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | gyflwyno'r Bil Amgylcheddol (Cymru) i'r Cynulliad yn y gwanwyn 2015. Bydd y bil hwn yn nodi anghenion, heriau a chyfleoedd lleol sy’n ymwneud â rheoli cyfoeth naturiol mewn ffordd fwy cynaliadwy a rhagweithiol, ac yn helpu i’w blaenoriaethu. | | |